| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD** | **Mehefin 28 2012** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Ymgynghoriad: Safonau Mewn Perthynas â'r Gymraeg: Beth yw eich Barn?** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Penderfynu ar sut orau i ymateb i'r ymgynghoriad** |
| **AWDUR** | **Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith** |

## 1. CEFNDIR

Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol i gyflwyno dyletswydd ar sefydliadau i gydymffurfio a Safonau statudol sy'n ymwneud a'r Gymraeg: Maes o law, bydd y strwythurau yma'n disodli'r trefniadau presennol sydd ynghlwm a llunio a chydymffurfio a Chynlluniau Iaith.

Yn ei Rhagair i'r ddogfen yma sy'n cyflwyno'r Safonau ar ffurf drafft, mae Comisiynydd y Gymraeg yn datgan gall y gofynion newydd ymddangos yn heriol i rai, ond bod hyn yn angenrheidiol os am wneud cynnydd o safbwynt hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

Pwrpas y Safonau arfaethedig fydd nodi'r disgwyliadau o safbwynt sut byddwn yn trin a defnyddio'r Gymraeg. Byddent hefyd yn amlygu pa wasanaethau gall pobl ddisgwyl eu derbyn drwy'r Gymraeg. Y bwriad yw gosod disgwyliadau clir a darpariaeth gyson.

Bydd y Safonau yma'n rhai statudol a byddent yn gwarchod statws swyddogol yn Gymraeg yng Nghymru

## 2. YR YMGYNGHORIAD

Ymgynghoriad anstatudol ar Safonau drafft sydd dan ystyriaeth: Nid yw'n ofynnol o dan y Mesur i gynnal ymgynghoriad ar y safonau drafft cyn eu cyflwyno i sylw Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, o gofio pwysigrwydd yr hyn sy'n cael ei gynnig, mae'r Comisiynydd yn awyddus iawn i roi cyfle i bawb fynegi barn. Mae hyn yn berthnasol iawn yn achos awdurdodau cyhoeddus, sydd eisoes yn gweithredu'n unol a'u Cynlluniau Iaith ac sydd â phrofiad ymarferol o ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd cyfnod yr ymgynghoriad yma yn rhedeg tan Awst 11, 2012

## 3. GOFYNNIR I'R PWYLLGOR

Ystyried sut y dymunent ymateb i'r ymgynghoriad a sut orau i gydlynu eu hymateb.